# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-29-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 22 Tachwedd 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janet Ryder, Eleanor Burnham, Christine Gwyther

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-28-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi trafod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ac wedi'i gymeradwyo yn y cyfarfod ar 8 Tachwedd. Gan fod yr Adroddiad wedi'i gyhoeddi ar bapur erbyn hyn, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau er gwybodaeth iddyn nhw.

3.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau hefyd fod taith wedi'i threfnu iddyn nhw o'r Ystafelloedd Pwyllgora yn adeilad newydd y Cynulliad yn union ar ôl y cyfarfod.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1168 - The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2005

Dywedwyd bod y rhesymau am y diffyg testun Cymraeg yn achos y Rheoliadau yma yn glir, gan eu bod wedi dilyn y weithdrefn weithredol a bod angen iddyn nhw ddod i rym yn gyflym iawn. Serch hynny, gofynnwyd a fyddai Offerynnau Statudol o'r fath bob amser yn cael eu cyfieithu yn nes ymlaen. Er bod y Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer cyfieithu deddfwriaeth o'r fath, esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol nad oedd hynny'n cael ei wneud bob amser gan fod rhai o'r Offerynnau Statudol yn cael eu disodli'n gyflym cyn iddynt gael eu cyfieithu. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

### 4.2 LC1169 - The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) Regulations 2005

Gofynnwyd a oedd yna fwriad i'r geiriau "susceptible birds must be exposed" yn Rheoliad 4(3)b olygu bod rhaid i adar a oedd yn dueddol o gael y clefyd fod yn agored oddi wrth weddill yr haid i gael eu trin a'u trafod. Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol wrth y Pwyllgor nad dyna'r bwriad a bod yna wall

syml na sylwyd arno ac y dylai’r geiriau ddarllen "susceptible birds should not be exposed". Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol y byddai’r geiriad yn cael ei gywiro mewn deddfwiaeth yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1173 - Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005**

**LC1174 - Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005**

**LC1175 - Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 3) (Cymru) 2005**

**LC1176 - Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005**

**LC1177 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2005**

**LC1178 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2005**

**LC1179 - Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn-gychwyn) (Diwygio) (Cymru) 2005**

**LC1180 - Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Rhif 2) (Cymru) 2005**

**LC1181 - Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005**

## Camau i’w cymryd

## Eitem 5: Offerynnau Statudol a Ail-osodwyd

**5.1 LC1159 - Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005**

**LC1161 - Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005**

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi trafod LC1159 - Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005 yn y cyfarfod ar 1 Tachwedd ac LC1161 - Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005 ar 8 Tachwedd. Roedd yr Aelodau wedi cytuno y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol. Dywedodd y Cadeirydd fod rhagor o wybodaeth wedi dod i’r fei ers hynny. Gofynnodd i’r Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol gyflwyno’i sylwadau.

5.2 Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol fod ambell fân ddiwygiad wedi’i wneud yn y ddau Offeryn Statudol: roedd y dyddiad dod i rym wedi’i newid ar gyfer Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2005 ac roedd cyfradd yr Ewro a Sterling wedi’i newid yn rheoliad 4 ar dudalen 8 o Reoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2005 (hynny yw, 0.68290 yn hytrach na 0.68335). Roedd y ddeddfwriaeth wedi’i hailosod gyda’r mân ddiwygiadau hyn.

5.3 Gan nad oedd y newidiadau’n codi pwyntiau a oedd i fod yn destun adroddiad, cynigiodd y Cadeirydd y dylai adroddiadau’r Pwyllgor aros yr un fath ag o’r blaen. Cytunodd yr Aelodau â’r cynnig.

## Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 29 Tachwedd 2005..